Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
HM Courts & Tribunals Service

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
# Cynllun Busnes 2012–2013

# cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| rhagarweiniad | gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd | 4 |
| | Llywodraethu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM – Rôl y Bwrdd | 5 |
| rhagair | gan Peter Handcock, Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 8 |
| adran 1 | Gosod y Llwyfan | 9 |
| adran 2 | Blaenoriaethau Busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 13 |

# rhagarweiniad

## gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd


Rydym yn falch o gyflwyno Cynllun Busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer 2012-13.

Mae Llysoedd a Thribiwnlysoedd ar ganol y system gyfiawnder – system y mae'r cyhoedd yn dibynnu arni er mwyn gorfodi eu hawliau a chynnal y gyfraith.

Y bwriad, felly, wrth gyfuno gweinyddiaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd y llynedd i wneud un gwasanaeth oedd nid yn unig sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl a lleihau gwastraff mewn cyfnod o gynilo ond, yn fwy sylfaenol, gwella eu gwasanaeth i'r cyhoedd.

Rydym yn falch o gofnodi bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi gwneud cynnydd sylweddol, yn ei flwyddyn gyntaf, tuag at uno'r cymorth gweinyddol i'n llysoedd a thribiwnlysoedd, gan geisio lleihau ei gostau hefyd. Ein gobaith yw y bydd yn parhau â llwyddiant y flwyddyn gyntaf yn 2012-13.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n cefnogaeth i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM er mwyn gweinyddu cyfiawnder yn effeithlon ac yn effeithiol mewn Llysoedd a Thribiwnlysoedd.


Y Gwir Anrh Kenneth Clarke CF AS
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Y Gwir Anrh yr Arglwydd Judge
Arglwydd Brif Ustus
Cymru a Lloegr

Y Gwir Anrh Syr Robert Carnwath CVO
Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

# Rôl y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio arweinyddiaeth a chyfeiriad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wrth iddo gyflawni'r nod a'r amcanion sydd wedi'u gosod gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus. Yn benodol, bydd y Bwrdd:

- yn cymeradwyo'r dyrannu ar y gyllideb flynyddol ac unrhyw newidiadau sylweddol ynddi yn ystod y flwyddyn;
- yn monitro'r camau i gyflawni amcanion strategol a chyrraedd targedau perfformiad;
- yn rhoi cymorth i greu a chynnal perthynas gadarn ar gyfer cydweithio rhwng staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r farnwriaeth ar bob lefel;
- yn cymeradwyo fframwaith a rheolaethau llywodraethu corfforaethol yr asiantaeth, ac yn monitro'r gweithredu arnynt;
- yn sicrhau bod yr asiantaeth yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol ym meysydd cynllunio, perfformiad a materion ariannol,  a bod perthynas agored a thryloyw â'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus wrth gyflawni hynny;
- yn cyfrannu at ddatblygu a chymeradwyo cynlluniau strategol a chynllun busnes blynyddol yr asiantaeth;
- yn cynghori, yn herio ac yn craffu ac, os bydd angen, yn rhoi cyfarwyddyd i'r Prif Weithredwr ynghylch strategaeth yr asiantaeth, cyflawni ei chynllun busnes yn gyffredinol a'r risgiau allweddol sy'n codi wrth redeg yr asiantaeth.

Mae'r cynllun busnes hwn yn adlewyrchu'r cyfeiriad strategol sydd wedi'i bennu gan y Bwrdd ac mae wedi'i gymeradwyo'n unol â'i gyfrifoldebau ar gyfer llywodraethu.



# rhagair

## gan Peter Handcock, Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Yr hinsawdd economaidd anodd yw'r cyd-destun o hyd i'n Cynllun Busnes yn 2012-13. Ar yr un pryd, rydym yn wynebu galw cynyddol am ein gwasanaethau oherwydd newidiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill o ganlyniad i'r pwysau hyn ar gyllidebau.

Cyn i mi drafod y gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, rwyf am ganmol staff ym mhob rhan o'r sefydliad am eu hymroddiad cyson ac am ymgymryd â'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud mewn ffordd adeiladol a chadarnhaol.

Oherwydd ein hymrwymiad ddulliau gweithio Lean, byddwn yn dal i fabwysiadu arferion ar gyfer gwella parhaus ym mhob rhan o'r sefydliad. Defnyddiwn arbenigedd ein staff rheng flaen i leihau gwastraff, safoni ein gwasanaethau, a dal i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau busnes. Mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer parhau i weithredu ein cynlluniau i wella gwasanaethau i'n defnyddwyr.

Syniadau Lean sydd wrth wraidd ein strwythur sefydliadol newydd sy'n dileu lefelau rheoli diangen a dyblygu. Drwy roi'r drefn newydd ar waith yn llawn yn 2012-13, gan gynnwys strwythur rheoli newydd ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol, byddwn yn sicrhau cyfran helaeth o'r arbedion ariannol y mae disgwyl i ni eu gwneud. Y fantais i'n defnyddwyr ac i'r trethdalwr yn y tymor hir yw bod y rheolwyr yn nes o lawer bellach at ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. O ganlyniad i hyn, rydym yn awr yn gallu adnabod anghenion lleol – ac ymateb iddynt – yn well.

Dylai defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd gael disgwyl gwasanaeth o'r un ansawdd ym mha ran bynnag o'r wlad y maent yn byw. Drwy safoni prosesau gweinyddu rhai o'n gwasanaethau allweddol, rydym yn gobeithio gwella profiad y rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Gan barhau â gwaith sy'n mynd ymlaen yn awr mewn llysoedd a thribiwnlysoedd, yn 2012-13 byddwn yn ystyried sut i ymestyn manteision y dull hwn o weithredu i brosesau busnes allweddol eraill mewn llysoedd sifil a theulu.

Rydym yn parhau â'n hymdrech i ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn well er mwyn gwella gwasanaethau. Y flwyddyn nesaf rydym yn disgwyl gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflwyno gwrandawiadau cwbl ddigidol mewn llysoedd troseddol. Rydym hefyd yn gwneud defnydd o'n galluoedd presennol mewn TGCh i ddatblygu'r 'Ganolfan Hawliadau Llys Sirol Ariannol' ymhellach er mwyn cael arbedion effeithlonrwydd drwy ganoli prosesau penodol.

Bydd yr holl waith hwn yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol o wasanaeth effeithlon sy'n canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer, ac sy'n ddigon hyblyg i ddelio â'r heriau sydd o'n blaen.

Mae'r diwygiadau a gweithgareddau yn y cynllun hwn yn rhan o raglen ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gweddnewid Cyfiawnder, ar gyfer sicrhau system gyfiawnder sy'n fwy effeithiol, yn llai costus, ac yn fwy ymatebol i'r cyhoedd. Fel rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, mae gennym ran allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r agenda uchelgeisiol hon ar gyfer diwygio, gan barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel drwy gydweithio â'n partneriaid a rhanddeiliaid.



Peter Handcock CBE
Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

# adran 1

# Gosod y Llwyfan

Mae'r cynllun hwn yn egluro blaenoriaethau busnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac yn disgrifio sut byddwn yn cyflawni ein hamcanion busnes ar gyfer 2012-13.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac mae'n gweithredu ar sail partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

Rydym yn darparu'r system gymorth ar gyfer gweinyddu busnes y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a'r tribiwnlysoedd hynny y mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol amdanynt. Ein nod yw rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n effeithlon ac yn effeithiol, fel y gellir cynnal y gyfraith, a rhoi mynediad at gyfiawnder i bawb.

## Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM – Y Flwyddyn Gyntaf

Sefydlwyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 1 Ebrill 2011 ac mae'r asiantaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei blwyddyn gyntaf. Rydym wedi rhoi strwythur gweithredu newydd ar waith, gan sicrhau arbedion ariannol sylweddol drwy ddileu haenau rheoli diangen a dyblygu ar waith, a pharhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd.

Rydym wedi dal i weithio yn ôl ein harfer yn ystod cyfnod o newid sylweddol – wedi'r cythrwfl sifil fis Awst diwethaf, gweithiodd staff, Ynadon a Barnwyr ledled y wlad ddydd a nos i ddarparu eisteddiadau estynedig mewn llysoedd i ddelio mor fuan ag yr oedd modd â'r nifer eithriadol o achosion. Mae cymheiriaid yn y tribiwnlysoedd hefyd wedi ymateb i'r her o ddelio â'r cynnydd sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn llwyth gwaith yr awdurdodaeth Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant. Yn ogystal â chyflawni ein busnes pob dydd, rydym wedi gweithio ar yr ymrwymiadau yng nghynllun busnes pedair blynedd y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd. Mae Rhaglen Rhesymoli Ystâd y Llysoedd yn mynd yn ei blaen ac mae'n rhan o'n strategaeth i foderneiddio a gwella'r defnydd o lysoedd yng Nghymru a Lloegr. Erbyn Hydref 2012 byddwn wedi cwblhau'r rhan gyntaf o raglen rhesymoli ystâd y llysoedd gan arbed swm amcangyfrifedig o £96.9 miliwn yng nghyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol. Rydym wedi sefydlu canolfan busnes a chanolfan gyswllt genedlaethol i brosesu hawliadau ariannol yn fwy effeithlon. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cyhoeddi safonau gwirfoddol newydd i Swyddogion Gorfodi i sicrhau bod pobl wedi'u diogelu rhag dulliau diffygiol neu annheg, gan ofalu yr un pryd y bydd dirwyon yn dal i gael eu casglu'n deg.

## Y Flwyddyn o'n Blaen

Yr her fwyaf yn 2012-13 fydd sicrhau ein bod yn dal i ddarparu ein gwasanaethau craidd yn unol â'r safonau uchaf. Fel pob rhan arall o Lywodraeth, mae cyfyngiadau ariannol caeth ar ein gweithrediadau ac mae gennym lai o adnoddau.

Byddwn yn parhau i bennu ffyrdd i wella a symleiddio ein gwasanaeth i gwsmeriaid, a chyflwyno ffyrdd mwy darbodus o weithio sy'n lleihau gwastraff ac yn ateb yr her i arbed arian. Agwedd bwysig ar hyn fydd cwblhau ein Strategaeth Weithredu ar gyfer y Dyfodol a'i chyhoeddi yn ystod 2012.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn hefyd yn datblygu ac yn symleiddio ein gallu mewn TG, yn moderneiddio'r broses gwysion yn y llysoedd ynadon, yn gwella'r broses ar gyfer casglu dirwyon, ac yn datblygu opsiynau ynghylch diogelu rhag beilïaid ymosodol cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion hyn.

Byddwn yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru, y farnwriaeth a rhanddeiliaid yng Nghymru i sicrhau y bydd unrhyw newid ym musnes Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yng Nghymru a allai effeithio ar wasanaethau datganoledig neu arwain at oblygiadau o ran y Gymraeg yn cael ei weithredu'n effeithiol ac amserol.

Yn yr un modd, byddwn yn parhau i gydweithio â chymheiriaid yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r farnwriaeth yn y rhannau hynny o'r wlad i sicrhau bod busnes tribiwnlysoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei gyflawni'n effeithiol, yn ogystal ag unrhyw newid yn y busnes hwnnw y cytunir arno.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i fuddsoddi ym mhob un o'n staff ar bob lefel.

Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant priodol i ddysgu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y strwythur gweithredu newydd. Bydd hyn yn eu cymell a'u galluogi i gyrraedd y safonau uchel yr ydym yn eu disgwyl gan ein staff yn y cyfnod anodd sydd o'n blaen.

## Gweledigaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer Gweddnewid Cyfiawnder

Amcan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw gweddnewid y system gyfiawnder a gweddnewid yr adran fel eu bod yn fwy effeithiol, yn llai costus ac yn fwy ymatebol. Fel Adran, mae gennym agenda fentrus ar gyfer diwygio. Rydym am weld system gyfiawnder sy'n cosbi'r euog, yn amddiffyn ein hawliau ac annibyniaeth y farnwriaeth, ac yn cychwyn chwyldro ym maes adsefydlu troseddwyr.

Bydd yr Adran yn darparu fframwaith dedfrydau clir, a fydd yn cosbi'r rheini sy'n torri'r gyfraith, ac yn helpu i ostwng aildroseddu. Bydd carchardai'n fannau lle y bydd gwaith ystyrlon a chyfleoedd i ddiwygio'n ddisgwyliad, ac nid yn fater o ddewis . Byddwn yn darparu system cymorth cyfreithiol sy'n cynorthwyo'r rheini sydd â'r angen mwyaf amdani. Byddwn yn annog mwy o bobl i ddatrys anghydfodau heb fynd i'r llys. Gwneir cyfraith well a byddwn yn creu perthynas newydd rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth sy'n diogelu'r gwerthoedd a hawliau sylfaenol hynny sy'n cynnal ein cymdeithas.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i'r Adran newid ei dull o weithio. Ein nod fydd sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder wedi'u darparu gan bwy bynnag sy'n gallu ateb galwadau'r cyhoedd yn fwyaf effeithiol ac effeithlon. Drwy gyflawni'r uchelgeisiau hyn, darperir gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon sy'n fwy ymatebol i anghenion y cyhoedd.

## Ein Hamcanion Strategol

Mae'r Ddogfen Fframwaith, sy'n dangos y cytundeb rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ar gyfer gweithredu Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn gosod pum amcan strategol allweddol ar gyfer yr asiantaeth, sef:

- Darparu gweinyddiaeth i gynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n deg, yn effeithlon ac yn hygyrch;
- Cynorthwyo barnwriaeth annibynnol i weinyddu cyfiawnder;
- Cymryd camau i wella perfformiad ac effeithlonrwydd yn barhaus ym mhob agwedd ar weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd;
- Cydweithio'n effeithiol â chyrff ac asiantaethau cyfiawnder eraill, gan gynnwys y proffesiynau cyfreithiol, er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder;
- Cydweithio ag adrannau ac asiantaethau Llywodraeth, fel y bo'n briodol, i wella ansawdd ac amseroldeb eu penderfyniadau er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n dod gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd

## Adnoddau

Bydd ein hamcanion strategol yn ein galluogi i bennu blaenoriaethau gwariant ar gyfer y gyllideb adnoddau o £1,083 miliwn (heb gynnwys incwm) sydd wedi'i dyrannu ar gyfer 2012-13. Mae'r dyraniad hwn yn 5% yn llai, ar sail tebyg am debyg (gan gynnwys pwysau chwyddiant a phwysau eraill o 7%), na'r un ar gyfer 2011-12 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM arbed tua £40 miliwn, ar ben y £92 miliwn yr oeddem wedi bwriadu ei arbed.

Mae Tabl 1 yn dangos ein hadnoddau ar gyfer y prif feysydd gwariant. Mae'r costau heblaw staff yn cynnwys eitemau fel rhent/trethi, TG/telathrebu, cyfleustodau a chostau swyddfa cyffredinol fel argraffu a phostio.

**Tabl 1 – Cyllideb Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM 2012–13**


| Adnoddau | Cyllideb 2011–12 | Cyllideb 2012–13 |
|---|---|---|
| *Categori* | | |
| **Gwariant Gros** | £m | £m |
| Costau staff | 583.2 | 529.9 |
| Costau barnwrol | 456.6 | 462.1 |
| Costau heblaw staff | 657.6 | 658.2 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **1,697.4** | **1,650.2** |
| Llai: | | |
| Incwm | 585.1 | 567.2 |
| Gwariant Net | **1,112.3** | **1,083.0** |
| Heb fod yn Arian Parod[2] | 124.8 | 122.2 |
| Cyfalaf[3] | 117.5 | 105.0 |

[1]Yn awdurdodaethau'r Tribiwnlysoedd, nid yw'r costau'n cynnwys cyfraniadau gan adrannau Llywodraeth eraill.
[2]Mae costau sydd heb fod yn arian parod yn cynnwys eitemau fel dibrisiant.
[3]Mae'r ffigur am gyfalaf yn dangos incwm gros ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyfalaf a waredir.

## Tabl 2 – Dosbarthiad y dyraniad rhwng Rhanbarthau

| | 2011–12 | 2012–12 |
|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | £m | £m |
| Llundain | 295.4 | 277.6 |
| De-ddwyrain Lloegr | 129.1 | 118.4 |
| De-orllewin Lloegr | 74.4 | 69.0 |
| Cymru | 58.0 | 56.2 |
| Canolbarth Lloegr | 144.5 | 134.7 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 124.1 | 115.4 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 126.9 | 118.8 |
| Tribiwnlysoedd yr Alban | 25.1 | 25.4 |
| Gwasanaethau Rheng Flaen Canolog[4] | 386.1 | 397.5 |
| Ystadau Canolog | 253.8 | 263.1 |
| Pencadlys | 80.0 | 74.1 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **1,697.4** | **1,650.2** |
| **Llai: Incwm** | 585.1 | 567.2 |
| | 1,112.3 | 1,083.0 |

### Siart 1 Dosbarthiad y dyraniad yn ôl Awdurdodaeth[5]




Eraill - LlBB – Llysoedd Barn Brenhinol

[4]Mae Gwasanaethau Rheng Flaen Canolog yn cynnwys cyflogau barnwyr, Gorfodi, Tribiwnlysoedd a reolir yn ganolog a thaliadau darpariaeth.

[5]Mae Aml-awdurdodaeth yn cynnwys cyflogau barnwyr, costau cyfunol llysoedd ac ystadau rhanbarthol ar gyfer pob awdurdodaeth (e.e. cynnal a chadw).

Fel rhan o Strategaeth Data Agored y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Agenda'r Llywodraeth ar Dryloywder, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth, yn ystod y flwyddyn nesaf, am weithrediad llysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall ein perfformiad. Bydd y dangosyddion hyn, sydd wedi'u rhestru yn Nhabl 3 isod, yn cofnodi mewnbynnau i'r gwasanaeth a'r effaith ar ein perfformiad. Mae Tabl 3 hefyd yn dangos beth fyddwn yn ei gyflawni â'n hadnoddau drwy nodi'r llwythi gwaith a ragwelir mewn llysoedd a thribiwnlysoedd ym mlwyddyn ariannol 2012-13.

**Tabl 3 – Llwythi gwaith a ragwelir yn ein llysoedd a thribiwnlysoedd**

| Dangosyddion llwyth gwaith | Dangosyddion mewnbwn | Dangosyddion effaith |
|---|---|---|
| Llys y Goron | | |
| Pob Achos: 149,700<br>O'r rhain:<br>Treialon: 95,600 | • Cost staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd | • Nifer yr wythnosau cyn dechrau achosion treial ar ôl eu derbyn yn Llys y Goron |
| Llysoedd Ynadon | | |
| Pob Achos: 1,633,300<br>O'r rhain:<br>Ditiadwy: 459,600<br>Diannod: 1,173,700 | • Cost staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd | • Nifer yr wythnosau cyn cwblhau pob achos ar ôl ei restru gyntaf<br>• Nifer y diwrnodau cyn cofrestru'r canlyniad yng nghofrestr y llys<br>• Cyfradd casglu cosbau ariannol |
| Tribiwnlysoedd | | |
| Pob tribiwnlys: 881,100<br>O'r rhain:<br>Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant: 483,400<br>Cyflogaeth: 204,600<br>Mewnfudo a Lloches: 123,100<br>Iechyd Meddwl: 28,300<br>Arall: 41,700 | • Cost y tribiwnlysoedd (barnwrol a gweinyddol)<br>• Cyfanswm costau tribiwnlysoedd | • Nifer yr wythnosau cyn penderfynu achosion ym mhob un o'r awdurdodaethau mwyaf:<br>• Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant<br>• Cyflogaeth<br>• Mewnfudo a Lloches<br>• Iechyd Meddwl |
| Cyfiawnder Sifil a Theulu | | |
| Llysoedd Sifil[6]<br>Pob Achos: 1,454,300<br>Hawliadau am Arian:1,091,100<br>Adfeddiannu: 193,400<br>Achosion sifil eraill: 110,900<br>Ansolfedd: 58,900 | • Cost staff a'r farnwriaeth fesul diwrnod eistedd | Llysoedd Sifil – Nifer yr wythnosau cyn gwrando achosion ar ôl derbyn yr hawliad yn y llys |

[6]O'r blaen, roeddem yn dangos y cyfansymiau ar gyfer gwrandawiadau hawliadau bychain, trac cyflym ac aml-drac, ond nid yw'r rhan fwyaf o achosion yn mynd ymlaen at wrandawiad terfynol. Mae'r ffigurau newydd yn dangos nifer yr achosion sy'n dechrau, yn ôl y math o achos, ac yn cynnwys yr holl lwyth achosion Sifil gan roi arwydd mwy dibynadwy o faint y gwaith sy'n mynd drwy'r llysoedd sifil

| | |
|---|---|
| Llysoedd Teulu[7]<br>Pob Achos: 189,200<br>o'r rhain -<br>Mabwysiadu: 7,000<br>Deddf Plant Cyfraith Gyhoeddus: 11,600<br>Deddf Plant Cyfraith Breifat: 36,900<br>Deddf Cyfraith Teulu: 15,800<br>Ysgariad heb lareiddiad ategol: 82,100<br>Ysgariad â llareiddiad ategol: 35,800 | Llysoedd Teulu 3 – Nifer yr wythnosau cyn cael canlyniad terfynol i'r plentyn mewn gofal ac mewn achosion goruchwylio |
| Dangosyddion Corfforaethol a Dangosyddion Ariannol eraill | |
| Nifer y cwynion a gofnodwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM<br>• Canran y cwynion a gwblhawyd gan yr haen gyntaf yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM<br>• Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i gwblhau ateb cwynion<br>• Dyraniad a gwariant ar lefel llys<br>• Yr holl wariant a chontractau dros £25,000 | |

[7] O'r blaen, rhagfynegwyd y gweithgarwch drwy nifer o fesurau gwahanol: nifer y plant sy'n gysylltiedig â cheisiadau (Gofal a Goruchwylio, Cyswllt a Phreswylio), nifer yr achosion (ysgariad), a nifer y ceisiadau (Llareiddiad Ategol, Trais Domestig). Mae'r ffigurau newydd yn dangos nifer yr achosion sy'n dechrau, yn ôl y math o achos, ac maent yn cynnwys holl lwyth achosion y llysoedd teulu.

# adran 2

## Blaenoriaethau Busnes

**Y flaenoriaeth i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 2012-13 fydd parhau i gyflawni busnes yn ôl ein harfer yng nghyd-destun y gostyngiad mewn adnoddau. Byddwn yn gwneud hyn drwy gyflawni ar sail ein pum blaenoriaeth busnes fel a ganlyn:**

### 1. Cyflawni strategaeth weithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer y dyfodol drwy wneud y canlynol:

- Dal i fwrw ymlaen â'r strwythur sefydliadol newydd ar gyfer cyflawni ein busnes.
- Parhau â'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth strategol hirdymor ar gyfer y sefydliad a sicrhau ei bod wedi'i gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Cyhoeddi dogfen sy'n egluro sut mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn bwriadu gwireddu ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol.
- Parhau â'n hymrwymiad i ddulliau gweithio Lean yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
- Meithrin ein galluoedd dysgu a rhoi i staff y sgiliau a'r arfau y mae arnynt eu hangen i wireddu'r weledigaeth.

### Sut byddwn yn cyflawni hyn:

#### Y strwythur sefydliadol newydd

- Ar ôl cwblhau'r strwythur newydd ar gyfer pencadlys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mae'r sefydliad wedi parhau i ddylunio'r busnes ehangach a disgwylir cwblhau strwythur yr uned busnes a chymorth rhanbarthol newydd erbyn Mehefin 2012.
- Cyflawnwyd gwaith sylweddol eisoes i sefydlu strwythur newydd ar gyfer rheoli'r llysoedd a thribiwnlysoedd. Mae'r rhain wedi'u grwpio i ffurfio unedau sefydliadol newydd o'r enw 'Clystyrau', a phenodwyd 'Rheolwyr Clwstwr' yn 2011 i rannu adnoddau a'r arferion gorau'n effeithiol rhwng gwahanol awdurdodaethau.

#### Datblygu'r weledigaeth strategol hirdymor

- Dechreuwyd llunio gweledigaeth strategol hirdymor sy'n canolbwyntio ar y cwsmer er mwyn moderneiddio'r llysoedd a thribiwnlysoedd, fel rhan hanfodol o'r rhaglen Gweddnewid Cyfiawnder.
- Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyrir cyfleoedd pellach, yn ystod y flwyddyn nesaf, i resymoli'r rhannau hynny o'r ystâd ar gyfer gwrandawiadau nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhaglen wreiddiol ar gyfer rhesymoli'r ystâd llysoedd.

#### Cyhoeddi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

- Yn ystod 2012 cyflwynir y weledigaeth strategol mewn dogfen ar gyfer y cyhoedd a fydd yn egluro sut bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ailfodelu ei fusnes craidd er mwyn rhoi gwell canlyniadau i'n cwsmeriaid yn y tymor hwy.

**Parhau â'n hymrwymiad i ddulliau gweithio Lean yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**

- Erbyn Rhagfyr 2012, rydym yn bwriadu rhoi gweithdrefnau gweithredu safonol ar waith ar gyfer holl waith craidd y llysoedd sifil a theulu a'r tribiwnlysoedd. Ar yr un pryd, byddwn yn dal i lansio safleoedd sy'n esiampl o ddulliau gweithio Lean ym mhob un o'n hawdurdodaethau craidd, i ddangos y trawsnewid mewn gwasanaethau a gwelliant parhaus ar sail egwyddorion Lean.
- Yn y llysoedd troseddol, byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno gweithdrefnau gweithredu safonol drwy gydol 2012-13. Ymhlith y rhain bydd gweithdrefnau penodol i hybu'r arbedion effeithlonrwydd a geir drwy ein gweithgarwch ar weithio digidol a gweinyddu achosion yn symlach. Yn y cyfnod hwn byddwn hefyd yn dal i wella nifer o'r gweithdrefnau gweithredu safonol sydd eisoes ar waith yn ein busnes.
- Yn ystod 2012-13 darperir hyfforddiant i roi i arweinwyr a staff y sgiliau y mae arnynt eu hangen i wella'n barhaus er mwyn cyflenwi gwasanaethau i gwsmeriaid yn fwy effeithiol ac effeithlon.

**Meithrin galluoedd dysgu a rhoi sgiliau ac arfau i'n staff**

- Byddwn yn lansio fframwaith galluoedd sy'n disgrifio sgiliau ac ymddygiad arwain ar gyfer arweinwyr y dyfodol. Caiff hyn ei hyrwyddo gan Ddysgu drwy'r Gwasanaeth Sifil, y cyfleuster sy'n diwallu anghenion dysgu a datblygu ym mhob rhan o'r Gwasanaeth Sifil.
- Yn ystod 2012-13 byddwn yn cynnwys Cyflawni Gweithredol fel proffesiwn yn y busnes.
- Byddwn yn cynyddu ein hymrwymiad i staff a rheolwyr yn y pencadlys a'r strwythurau rhanbarthol newydd drwy sicrhau eu bod yn barod i gyflawni eu rolau a bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i gyflawni eu rolau'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Erbyn Mawrth 2013 byddwn yn trosglwyddo'r holl ddeunydd priodol am sgiliau busnes i fodiwlau hyfforddi cyfrifiadurol yn unol ag egwyddorion Dysgu drwy'r Gwasanaeth Sifil ac Adnoddau Dynol y Gwasanaeth Sifil.
- Rydym wedi rhagori ar dargedau ar gyfer cofrestru staff ar raglenni prentisiaethau a Chymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau â'r llwyddiant hwn gan ein bod wedi sicrhau cyllid tan fis Gorffennaf 2012.
- Parhawn i weithredu'r broses Newid Gweithlu sy'n pennu strwythur a niferoedd staff mewn rhanbarthau, yn asesu pa rolau sy'n hanfodol, ac yn pennu'r ffordd o ateb y gofynion am sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ym mhob rôl. Er mwyn hybu'r broses hon, canolbwyntiwn ar sicrhau gwell dealltwriaeth o rolau hanfodol y busnes ac o gynllunio, fel y bydd pob aelod staff yn meddu ar y sgiliau priodol.

## 2. Datblygu model busnes cynaliadwy ar gyfer cyfiawnder sifil, teulu a gweinyddol sy'n cadw cydbwysedd rhwng gwariant ac incwm drwy wneud y canlynol:

- Rhoi cymorth i ddatblygu a gweithredu'r rhaglen Gweddnewid Cyfiawnder a newidiadau mewn polisi sy'n gysylltiedig, er enghraifft, y rheini sy'n deillio o'r Adolygiad o Gyfiawnder Teulu ac o ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder i "Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol: creu system symlach, gyflymach a mwy cymesur".
- Uno tribiwnlysoedd a throsglwyddo nifer ohonynt i'n strwythur tribiwnlysoedd presennol.
- Gweithredu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno polisi codi ffioedd mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth.
- Parhau i dreialu a gwerthuso'r defnydd o

gynghorwyr cyfreithiol llysoedd ynadon yn awdurdodaethau'r tribiwnlysoedd.

## Sut byddwn yn cyflawni hyn:

**Datblygu a gweithredu newidiadau mewn polisi cyfiawnder sifil, teulu a gweinyddol**

- Yn dilyn ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Gyfiawnder Teulu, cydweithiwn â Grŵp Polisi Cyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder, partneriaid cyflenwi a'r Farnwriaeth i ddiwygio gwasanaethau llys teulu'n unol â'r argymhellion o'r adolygiad sydd wedi'u derbyn.
- Yn dilyn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Ddatrys Anghydfodau yn y Llys Sirol, cyflwynwn drefniadau i wneud mwy o ddefnydd o gyfryngu ar gyfer hawliadau bychain.

**Uno a throsglwyddo tribiwnlysoedd**

- Parheir i uno tribiwnlysoedd a throsglwyddo nifer ohonynt i'r strwythur tribiwnlysoedd unedig a gweithredu newidiadau o ganlyniad i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.
- Bydd hyn yn cynnwys y Siambr Eiddo Haen Gyntaf a sefydlir yn 2012/13.
- Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'r cynigion i drosglwyddo gwasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio Lloegr i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

**Ffioedd mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth**

- Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ar *Gyflwyno ffioedd mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth ac yn y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth* gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar 14 Rhagfyr 2011 a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 6 Mawrth 2012.
- Ystyrir yr ymatebion i'r papur ac, os yw'n briodol, ac ar ôl cael penderfyniad Gweinidogol, byddwn yn ceisio cyflwyno model gweithredu busnes i godi ffioedd erbyn haf 2013 i ategu polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y maes hwn.
- Os cymeradwyir y cynllun ffioedd ar gyfer Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth, byddwn yn llunio cyfleuster TGCh ar ei gyfer sy'n defnyddio cydrannau presennol ar y we, lle y bo'n briodol, gan sicrhau gwerth am arian o unrhyw fuddsoddi angenrheidiol mewn TGCh.

## 3. Cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau ym mhob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol drwy hybu a chyflawni newidiadau mewn prosesau, gan baru adnoddau â'r galw a lleihau dyblygu a gwastraff drwy wneud y canlynol:

- Gwneud ystafelloedd llys yn fwy effeithlon yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon drwy hybu'r cynllun pledio'n euog yn gynnar sy'n cael ei arwain gan yr Uwch Farnwr Llywyddol; dileu gwrandawiadau traddodi; rhoi mwy o gyfarwyddyd strategol a nifer o opsiynau ar gyfer diwygio cyfiawnder ymhellach.
- Darparu mwy o wasanaethau fideo a gweithio digidol gyda'r farnwriaeth a'r gwahanol asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn fwy effeithlon a chyflym.

## Sut byddwn yn cyflawni hyn:

**Gwneud ystafelloedd llys yn fwy effeithlon: hybu'r cynllun pledio'n euog yn gynnar yn Llys y Goron**

- Bydd cynllun yr Uwch Farnwr Llywyddol i annog diffynyddion i bledio'n euog ar y pwynt cynharaf mewn achos yn gwella'r rheolaeth ar achosion yn Llys y Goron. Caiff ei roi ar waith mewn 20 o lysoedd ychwanegol erbyn Mehefin 2012 ac rydym yn bwriadu ei roi ar waith yng ngweddill Cymru a Lloegr erbyn Rhagfyr 2012.

**Dileu gwrandawiadau traddodi mewn llysoedd ynadon**

- Erbyn Mawrth 2013 byddwn yn gweithredu darpariaethau mewn deddfwriaeth i ddileu gwrandawiadau traddodi yn yr holl lysoedd ynadon, gan gydweithio â Gwasanaeth Erlyn y Goron ac asiantaethau eraill i leihau'r pwysau ar ein gwasanaethau a gwneud ystafelloedd llys mor effeithlon ag sy'n bosibl.

**Moderneiddio'r broses gwysio yn y llysoedd ynadon a gwella'r broses ar gyfer cosbau penodedig**

- Ar ôl gwerthuso'r broses newydd ar gyfer hawlio taliadau drwy'r post yn y llysoedd sydd wedi'i mabwysiadu'n gynnar, byddwn yn rhoi'r broses hon ar waith yn genedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Twyll Difrifol erbyn diwedd Ebrill 2012, ac yn ystyried y posibilrwydd o'i ymestyn i'r cyrff erlyn eraill erbyn Medi 2012.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Gwella Plismona Genedlaethol (fel y byddwn â'r corff a fydd yn ei holynu maes o law) ar brosesu hysbysiadau cosb benodedig gyda'r bwriad o greu proses newydd erbyn Mawrth 2013.

**Darparu mwy o wasanaethau fideo a gweithio digidol gyda'r farnwriaeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill**

- Erbyn haf 2012 byddwn yn gwneud llysoedd yn fwy effeithlon drwy ddechrau cydweithio'n ddigidol â phartneriaid eraill yn y System Cyfiawnder Troseddol drwy ddarparu Gwasanaeth Cadwrfa Dogfennau ar draws y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer storio a throsglwyddo dogfennau'n ddigidol rhwng asiantaethau.
- Er mwyn ehangu gweithio digidol byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod y rhwydwaith ardal eang presennol, systemau fideo mewn llysoedd a'r seilwaith ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yn electronig yn gallu ateb y galw cynyddol.
- Os ceir cymeradwyaeth Weinidogol, byddwn yn cwblhau'r ddarpariaeth o wasanaethau fideo gwell yn y llysoedd troseddol, a hynny'n cynnwys 44 o gysylltiadau fideo pellach mewn carchardai a llysoedd ar gyfer canolfannau Llys y Goron, lle nad ydynt wedi'u gosod yn barod.
- O Ebrill 2012 byddwn yn cynyddu nifer y llysoedd sy'n caniatáu i swyddogion heddlu roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo (Livelink) a nifer y llysoedd sy'n gallu delio â gwrandawiadau cyntaf drwy gyswllt fideo (Llys Rhithiol).

**Cynorthwyo barnwriaeth annibynnol**

- Byddwn yn cydweithio â'r farnwriaeth i ddatblygu cynigion ar gyfer y ffordd orau i leoli Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) ac ynadon erbyn Mai 2012 gyda'r bwriad o gytuno ar y fframwaith a'i roi ar waith erbyn Mawrth 2013.
- Mewn partneriaeth â'r farnwriaeth byddwn yn adolygu trefniadau llywodraethu barnwrol, yng nghyswllt y gwahanol grwpiau cynrychiadol lleol yn y Llysoedd Ynadon yn benodol, er mwyn cyflwyno argymhellion dechreuol erbyn Mai 2012 a rhoi'r argymhellion hyn ar waith yn llawn erbyn Gorffennaf 2013.
- Ar ôl ymgynghori, byddwn yn cyflwyno model newydd ar gyfer Clercod yr Ynadon a'u Dirprwyon ledled Cymru a Lloegr erbyn Mawrth 2013.

**Hyrwyddo diwygiadau pellach yn y system cyfiawnder troseddol**

- Byddwn yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer cyflwyno diwygiadau ac arbedion effeithlonrwydd pellach drwy wneud y canlynol:
  - rhoi prawf ar ddewisiadau ar gyfer eisteddiadau hyblyg yn y llysoedd ynadon rhwng Ebrill 2012 a Thachwedd 2012.
  - edrych ar y cyfranogi cynyddol gan y gymuned leol mewn mentrau cyfiawnder cymdogaeth drwy werthuso paneli cyfiawnder cymdogaeth, gan ddechrau yn Ebrill 2012.
  - rhoi prawf ar nifer o fesurau i wneud y llysoedd ynadon yn fwy effeithlon gan gynnwys: trafod troseddau lefel isel niferus sy'n ddi-ddadl mewn ffordd gymesur; symleiddio treialon diannod; symleiddio adroddiadau fforensig a rhoi achosion ar y trac cyflym.

## 4. Canoli a safoni prosesau busnes mewn swyddfeydd cefn cenedlaethol a chanolfannau cyswllt drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau arbedion maint drwy ganoli a safoni prosesau busnes gweinyddol mewn swyddfeydd cefn cenedlaethol.
- Datblygu ein rhwydwaith o ganolfannau cyswllt er mwyn darparu un pwynt cyswllt i gwsmeriaid ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â phrosesau sydd wedi'u canoli.
- Asesu'r graddau y gellid ymestyn y dull hwn o weithredu i gynnwys prosesau gweinyddu mewn meysydd eraill er mwyn cael mwy o arbedion.

## Sut byddwn yn cyflawni hyn:

**Ehangu ein rhaglen waith ar gyfer canoli prosesau busnes**

- Ar ôl sefydlu gwasanaeth hawliadau ariannol cenedlaethol yn Salford byddwn yn sefydlu rhaglen yn 2012 er mwyn parhau i ganoli prosesau busnes.
- Cynyddu capasiti'r canolfannau busnes yn y swyddfeydd cefn presennol yng Nghaerlŷr, Salford a Northampton er mwyn canoli prosesau busnes ymhellach.

**Darparu un pwynt cyswllt i gwsmeriaid**

- Ar ôl sefydlu cyfleuster canolfan gyswllt yn Loughborough ar gyfer y gwasanaeth hawliadau ariannol cenedlaethol ac apeliadau ym maes Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, byddwn yn ystyried datblygu mwy o gapasiti i gynnal y nifer cynyddol o brosesau sydd i'w cyflawni mewn swyddfeydd cefn cenedlaethol.

**Ehangu dull y ganolfan fusnes a chanolfan gyswllt ymhellach**

- Asesu i ba raddau y byddai'r dull hwn o weithredu'n gymwysadwy i brosesau gweinyddu mewn rhannau eraill o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
- Dechrau gwaith i ystyried a fyddai dull y ganolfan fusnes a chanolfan gyswllt yn gwneud prosesau gweinyddu yn y Llysoedd Ynadon yn fwy effeithlon.
- Byddwn yn adolygu ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarparwn drwy'r canolfannau busnes a chyswllt, yn unol â'r polisi o wella parhaus.

## 5. Darparu system gorfodi ratach, gyflymach a mwy cymesur sy'n sicrhau cydymffurfio llawer gwell â gorchmynion llys drwy wneud y canlynol:

- Gwerthuso a darparu modelau amgen i gyflenwi gwasanaethau ar gyfer dirwyon troseddol, cydymffurfio a gorfodi yn y dyfodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynyddu a gweinyddu'r swm y gellir ei ddidynnu'n awtomatig o fudd-daliadau.
- Gwerthuso cynllun peilot i gasglu taliadau am gosbau ariannol sy'n orddyledus ac sydd wedi'u dynodi'n 'hen ddyled'.
- Creu strwythur gorfodi cenedlaethol sengl lle mae rheolwyr llinell yn gyfrifol am yr holl staff gorfodi troseddol.
- Creu set genedlaethol o arferion gweithio safonol ar gyfer yr holl swyddogaethau gorfodi.
- Ymgynghori ar y ffordd i wneud mwy o ddefnydd o brosesau atafaelu asedau yn y system cyfiawnder troseddol.
- Ystyried ehangu'r defnydd o broses gyflymach o ddefnyddio gwarantau atafaelu i atafaelu asedau.
- Datblygu opsiynau i roi mwy o amddiffyniad i bobl rhag beilïaid ymosodol.

## Sut byddwn yn cyflawni hyn:

### Gwerthuso a darparu modelau amgen i gyflenwi gwasanaethau ar gyfer dirwyon troseddol, cydymffurfio a gorfodi yn y dyfodol

- Yn ystod 2012-13 byddwn yn gwerthuso nifer o fodelau amgen i gyflenwi gwasanaethau ar gyfer casglu dirwyon troseddol, cydymffurfio a gorfodi yn y dyfodol. Ar ôl cadarnhau'r model masnachol gan Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a chael cymeradwyaeth gan Weinidogion, byddwn yn dechrau ei roi ar waith.

### Cynyddu cyfradd y swm mwyaf y gellir ei ddidynnu o fudd-daliadau a weinyddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2012 i gynyddu'r swm mwyaf y gellir ei ddidynnu'n uniongyrchol o fudd-daliadau unigolyn i dalu swm am gosb sy'n orddyledus, o'r gyfradd bresennol o £5 i gyfradd o £25 yr wythnos, ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfer credyd cynhwysol yn 2013-14.

### Gwerthuso cynllun peilot ar hen ddyled

- Erbyn Ebrill 2012 byddwn yn gwerthuso cynllun peilot gyda thri chwmni masnachol i gasglu 'hen ddyledion' yn well. Hen ddyledion yw cosbau ariannol troseddol sydd wedi'u gosod ers mwy na 12 mis lle mae taliadau'n orddyledus. Bydd y gwerthusiad yn pwyso a mesur canlyniadau'r cynllun peilot er mwyn deall sut i gasglu hen ddyledion yn well a chael gwybod beth yw'r cyfuniad gorau o dechnegau a dulliau newydd i gyflawni hynny. Byddwn yn ystyried canlyniadau'r cynllun peilot wrth bennu ein strategaeth ar gyfer delio â hen ddyledion yn y dyfodol.

### Creu strwythur gorfodi cenedlaethol sengl gyda set safonol o arferion gweithio ar gyfer yr holl swyddogaethau gorfodi

- Erbyn Mawrth 2013 rydym am greu dull safonol o weithio drwy'r wlad ar gyfer yr holl swyddogaethau gorfodi fel y caiff cyfrifon eu rheoli yn yr un ffordd gan bob tîm gorfodi.

### Ymgynghori ar fwy o ddefnydd o brosesau atafaelu asedau yn y system cyfiawnder troseddol

- Fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach ar ddedfrydau cymunedol byddwn yn ymgynghori, erbyn Mai 2012, ar gynigion i gynyddu'r defnydd o orchmynion tâl sifil i sicrhau gorchmynion atafaelu fel y gellir gorfodi gorchmynion i werthu er mwyn atafaelu asedau ac adennill mwy o ddyledion.

### Ystyried ehangu'r defnydd o broses gyflymach o ddefnyddio gwarantau atafaelu er mwyn atafaelu asedau

- Ar ôl cwblhau cynllun peilot llwyddiannus yn Rhanbarth De-orllewin Lloegr, byddwn yn ystyried cynigion i ehangu'r defnydd o broses gyflymach o ddefnyddio gwarantau atafaelu er mwyn atafaelu asedau erbyn Mehefin 2012.